Y Parchedig Rowland Hughes
1921-8



Brodor o Ddolwyddelan oedd y Parchedig Rowland Hughes a bu'n weinidog ar eglwysi Pendref, Bangor ac Ebeneser, Tylorstown cyn ei alw i Minny Street. Mae hanes galw'r Parchedig Rowland Hughes i Minny Street yn cynnwys copi llaw o'r llythyr yn ei wahodd, copi llaw o'i ateb yntau a hanes y cwrdd sefydlu i gyd wedi eu cofnodi yn llaw T. W. Brace yng nghofnodion yr Eglwys.

Bu Minny Street yn llewyrchus dan weinidogaeth Rowland Hughes a'r aelodaeth yn cynyddu o 339 i 410. Dyma'r cyfnod yr adnewyddwyd cryn dipyn ar y tu mewn i'r capel. Rhoddwyd ynddo'r sêt fawr bresennol, prynwyd organ hardd a rhoi golau trydan yn y capel. Ysywaeth ni fu Rowland Hughes fyw i fwynhau manteision y newidiadau a'r cynnydd; cafodd y ffliw a bu farw ymhen naw niwrnod yn ddiweddarach ar 14 Mawrth 1928.

Ni ellir talu gwell teyrnged iddo na'r cyfrif am chwe blynedd gyntaf ei weinidogaeth sydd yn llaw T. W. Brace yng nghofnodion yr Eglwys,

> '*Chwe blynedd o bregethiad grymus y gair, chwe blynedd o balmantu ffordd yr Arglwydd, chwe blynedd o fugeiliaeth gariadus, chwe blynedd o gymdeithas tangnefeddus y Saint, a chwe blynedd o gynydd cyson yn nifer yr aelodau o 339 hyd dros y 400 Ni raid i mi udganu gair o barthed ei gymeriad fel pregethwr. Mae'r Dê ar Gogledd yn adwaen ei lais, ac nid oes congl i'w gael rhwng mynyddau ein gwlad, nad yw ei leferydd wedi cyrhaedd yno, a pha rhyfedd hefyd, pan gofiwn fod pregethu yn ei waed ... Yn fuan wedi sefydlu Mr Hughes yn ein plith, y teimlwyd fod yma rhyw ddylanwad cyfrin a dyrchafol yn ymlenwi ein hysbrydoedd ac yn esgor ar ddigonedd ysbrydol ynom.*'

Claddwyd gweddillion Rowland Hughes ym mynwent Cathays, Caerdydd, ddydd Sadwrn, 17 Mawrth 1928. Yn rhan o'r gwaith atgyweirio ac ailbaentio yn y capel yn 1950, gosodwyd coflech iddo ac arni'r arysgrif '*Pregethwr Cadarn a Gweinidog Da i Iesu Grist*'.

(Glyn E. Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)